

BBC BITESIZE

# Merthyr Tudful: Y Chwyldro Diwydiannol

Adnoddau cynradd


# Croeso i becyn adnoddau addysgol BBC Bitesize Merthyr Tudful: Y Chwyldro Diwydiannol

Er mwyn cydnabod dau gan mlynedd ers adeiladu Castell Cyfarthfa, mae Adran Addysg BBC Cymru wedi datblygu adnoddau dwyieithog i ddathlu hanes diwydiannol Merthyr Tudful. Mae'r pecyn hwn yn gasgliad o adnoddau parod i athrawon fydd yn ysbrydoli disgyblion ac yn dod â'r Chwyldro Diwydiannol yn fyw drwy gyfrwng gwersi a thasgau cyffrous.

Ceir yma weithgareddau hwyliog – wedi eu creu gan athrawon – sy'n addas ar gyfer disgyblion Blwyddyn 4, 5 a 6. Mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio i gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn darparu cyfleoedd cyfoethog i athrawon ddatblygu'r Pedwar Diben ac archwilio'r Meysydd Dysgu a Phrofiad gyda'u dosbarth. Mae hyblygrwydd o fewn y gweithgareddau i'w haddasu ar gyfer pob disgybl a'u llwybrau dysgu unigol.

Mae'r pecyn yn cyflwyno hanes pobl Merthyr Tudful yn yr 1820au a'r cynnwys yn berthnasol i ddisgyblion ledled Cymru ac yn manylu ar themâu megis gwaith, mudo, tai, a iechyd a lles pobl a phlant yn y cyfnod. Dyma themâu fydd yn rhoi cyfle i ddisgyblion feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r newidiadau enfawr a ddaeth yn sgil y Chwyldro Diwydiannol.

**Rhowch lwyfan i'ch disgyblion! Dangoswch eu creadigrwydd a'u profiadau gyda'r pecyn hwn ar eich cyfrifon cymdeithasol. Defnyddiwch yr hashnod #pecynbitesizemerthyr i ymuno â'r bwrlwm!**




# Merthyr Tudful: Y Chwyldro Diwydiannol

## Adnoddau cynradd

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Twf Merthyr Tudful | 4 |
| Bywyd gwaith | 21 |
| Cartrefi ac iechyd | 32 |
| Geirfa | 42 |
| Delweddau | 45 |




# Twf Merthyr Tudful



# Llinell amser Merthyr Tudful

### Nod addysgol
Archwilio digwyddiadau hanes diwydiannol Merthyr Tudful. Meddwl am sut gallai digwyddiadau pwysig a'r twf yn y boblogaeth fod wedi effeithio ar bobl a'u cymunedau. Dehongli data a chreu graff.

### Crynodeb
Bydd disgyblion yn creu llinell amser o ddigwyddiadau diwydiannol Merthyr Tudful. Byddan nhw'n archwilio trawsnewidiad Merthyr Tudful yn ystod y Chwyldro Diwydiannol drwy ddadansoddi data poblogaeth hanesyddol, creu graffiau llinell, a thrafod effeithiau twf trefol cyflym ar amodau byw.

### Meysydd Dysgu a Phrofiad
Y Dyniaethau; Mathemateg a Rhifedd

### Trefn
Gwaith grŵp a gwaith unigol.

### Offer
Cardiau ffeithiau llinell amser wedi'u hargraffu, darnau mawr o bapur / lle ar y bwrdd gwyn, siswrn, glud, pensiliau neu feiros lliw. Papur graff neu daflenni gwaith gydag echelinau wedi'u labelu, prennau mesur, pensiliau, taflenni neu sleidiau gyda data poblogaeth, delweddau o Ferthyr Tudful (gweler adran Delweddau).


### Cyfryngau cymdeithasol
Defnyddiwch #pecynbitesizemerthyr i roi llwyfan i waith eich disgyblion ac i ysbrydoli eraill.



**Cyd-destun**
Esboniwch i'r dosbarth y byddan nhw'n archwilio sut y trawsnewidiodd Merthyr Tudful o fod yn bentref ffermio bach i fod yn un o'r trefi mwyaf yng Nghymru. Byddant yn edrych ar y prif ddigwyddiadau ac yn defnyddio data cyfrifiad i ddeall sut newidiodd poblogaeth Merthyr Tudful.

Esboniwch fod y **Chwyldro Diwydiannol** yn gyfnod o newid enfawr i leoedd fel Merthyr Tudful. Ar un adeg roedd Merthyr yn bentref bach, ond daeth yn un o'r trefi pwysicaf yn y byd ar gyfer cynhyrchu haearn. Roedd y gwahanol ddeunyddiau oedd eu hangen i gynhyrchu haearn (mwyn haearn, glo a chalchfaen) gerllaw, felly daeth yn dref ddiwydiannol ffyniannus gyda phedwar gwaith haearn enfawr. Roedd pyllau glo a chwareli yn yr ardal gyfagos hefyd. Symudodd miloedd o bobl yno i weithio.

Roedd adeiladu ffatrïoedd, melinau tecstilau a rheilffyrdd wedi creu galw am haearn i wneud offer, peiriannau a thraciau rheilffordd. Roedd angen glo i gynhyrchu haearn ac fel tanwydd ar gyfer injans stêm. Roedd hefyd yn golygu bod angen adeiladu ffyrdd, camlesi a rheilffyrdd i symud adnoddau a chynnyrch.



## Stori Martha: Merthyr Tudful – fy nhref i

Mae Merthyr Tudful wedi newid lot fawr hyd yn oed ers i fi symud yma o Sir Gaerfyrddin, ac mae'n dal i newid drwy'r amser. Pentref bach oedd Merthyr tan yn weddol ddiweddar. Ond ers iddyn nhw ddechrau cynhyrchu haearn yma, mae wedi tyfu i fod yn un o drefi mwyaf Cymru. Mae miloedd o bobl yn byw yma nawr, a mwy yn cyrraedd bob dydd. Mae pob math o acenion i'w clywed ym Merthyr, a ieithoedd gwahanol hefyd – Cymraeg, Saesneg a hyd yn oed Gwyddeleg.

Mae hyn wedi digwydd achos bod Merthyr yn le da iawn i wneud haearn. Mae popeth sydd ei angen i'w wneud haearn fan hyn. Mae mwyn haearn o dan y ddaear. Dyma'r graig sydd â haearn y tu mewn iddi. Mae llawer o lo yn yr ardal, sy'n cael ei ddefnyddio i gynhesu'r ffwrneisi. Mae calchfaen yma hefyd, sydd ei angen i wneud yr haearn yn bur.


Mae Merthyr yn le swnllyd gyda mwg yn byrlymu o simneiau, a cheffylau'n tynnu certi dros y coblau. Mae rhuo y ffwrneisi chwyth yn y gweithfeydd haearn yn swnio fel taranau diddiwedd. Dydy sŵn y morthwylio byth yn stopio. Mae'n ddrewllyd hefyd. Mae arogl fel wyau drwg bob amser yn yr aer. Mae'r drewdod o'r tanerdai, lle maen nhw'n gwneud ffedogau lledr ar gyfer y gweithwyr haearn, yn ofnadwy. Ych a fi!

Mae'r bobl sy'n gweithio yma yn gwneud gwaith anodd a pheryglus. Dydyn nhw ddim yn cael eu talu'n dda iawn ac maen nhw'n byw mewn tai sy'n fach ac yn orlawn. Weithiau, pan fyddan nhw'n anhapus iawn, byddan nhw'n dod at ei gilydd i brotestio yn erbyn y meistri haearn.

Lle bynnag rwyt ti'n edrych, maen nhw'n adeiladu rhesi o gartrefi bach. Mae'n tŷ ni yn fach ofnadwy. Rydyn ni'n ni ei alw fe yn dŷ 'un-lan, un-lawr'. Mae hyn yn meddwl bod un ystafell lawr llawr ar gyfer coginio, bwyta, ymolchi ac eistedd, ac un ystafell lan lofft lle rydyn ni gyd yn cysgu. Mewn rhai tai mae cymaint â 10 o bobl yn byw mewn dim ond un ystafell. Sut yn y byd maen nhw i gyd yn ffitio?

Y meistri haearn yw'r dynion cyfoethog iawn sy'n berchen ar y pedwar gwaith haearn enfawr yn y dref. Mae Mr Crawshay, sy'n berchen ar Waith Haearn Cyfarthfa, mor gyfoethog mae e newydd adeiladu plasty sy'n edrych fel castell!





## Gweithgaredd 1: Y prif ddigwyddiadau

**Llinell amser:** Esboniwch fod llinell amser yn ddiagram sy'n dangos digwyddiadau yn nhrefn amser. Mae llinell amser yn cael ei threfnu yn ôl dyddiad, ac mae'n dechrau gyda'r digwyddiad cynharaf ac yna'n symud ymlaen mewn amser.

**Mewn grwpiau:** Gofynnwch i'r disgyblion greu llinell amser gan ddefnyddio darn mawr o bapur neu'r bwrdd gwyn. Yn gyntaf, dylent dynnu llinell lorweddol hir a labelu'r cyfnodau amser (degawdau) yn glir ar ei hyd, o'r chwith i'r dde. Rhowch set o'r cardiau llinell amser i bob grŵp. Dylai'r disgyblion eu rhoi yn y drefn gywir (gan ddefnyddio'r dyddiadau ar y cardiau i'w helpu).

**Trafodaeth dosbarth cyfan:** Ar ôl gorffen y llinell amser, trafodwch:

- pa ddigwyddiadau newidiodd Merthyr fwyaf?
- sut oedd bywydau pobl wedi gwella neu wedi gwaethygu ar ôl pob newid?



## Pentref tawel

**Dyddiad:** Cyn 1750

- Pentref bach yn ne Cymru oedd Merthyr Tudful, gyda dim ond ychydig o ffermydd a bythynnod.
- Roedd y tir yn llawn glo, mwyn haearn a chalchfaen – perffaith ar gyfer cynhyrchu haearn, er nad oedd llawer o bobl yn gwybod hynny ar y pryd.

## Dechrau diwydiant

**Dyddiad:** 1759-1784

- Gwaith haearn Dowlais oedd y cyntaf i gael ei agor ym Merthyr Tudful, gan grŵp o ddynion busnes yn 1759.
- Wedi hyn daeth sawl gwaith haearn arall: Plymouth yn 1763; Cyfarthfa yn 1765, a Phenydarren yn 1784.
- Dyma rai o'r ffatrïoedd cynhyrchu haearn mwyaf yn y byd. Dechreuodd Merthyr Tudful dyfu'n gyflym wrth i bobl fynd yno i weithio.

## Adeiladu Camlas Morgannwg

**Dyddiad:** 1790–1794

- Cafodd Camlas Morgannwg ei hadeiladu i gludo glo a haearn o Ferthyr Tudful i lawr i'r porthladd yng Nghaerdydd.
- Roedd math o gwch o'r enw ysgraff yn arnofio ar hyd y gamlas, ac yn cael ei dynnu gan geffylau yn cerdded wrth ymyl y gamlas.
- Roedd hyn yn golygu ei bod hi'n bosib anfon y glo a'r haearn o Ferthyr Tudful i unrhyw le yn y byd.

## Pŵer stêm a rheilffyrdd

**Dyddiad:** 1804

- Cafodd injan trên stêm gyntaf y byd ei phrofi gan Richard Trevithick yn y gwaith haearn ym Mhenydarren.
- Fe wnaeth yr injan dynnu haearn ar hyd y cledrau ar daith naw milltir o'r gwaith haearn ym Mhenydarren i Gamlas Morgannwg.
- Roedd yr injan  stêm yn dangos sut gallai peiriannau gymryd lle ceffylau a symud pethau trwm yn haws.

## Adeiladu Castell Cyfarthfa

**Dyddiad:** 1825

- Teulu pwerus a chyfoethog y Crawshays adeiladodd Gastell Cyfarthfa, sef plasty mawr oedd â golygfa o Waith Haearn Cyfarthfa. Teulu'r Crawshays oedd yn berchen ar y gwaith hwn.
- Roedd y castell yn gartref crand a oedd yn dangos eu cyfoeth a'u pŵer. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl oedd yn gweithio i'r Crawshays yn byw mewn bythynnod bach.
- Heddiw mae'r castell yn amgueddfa sy'n le i bobl ddysgu am hanes Merthyr Tudful.

## Terfysgoedd Merthyr

**Dyddiad:** 1831

- Roedd pobl yn anhapus oherwydd cyflogau isel, colli swyddi, a thriniaeth annheg.
- Gorymdeithiodd miloedd drwy'r dref mewn protest. Cafodd milwyr eu hanfon i mewn a cafodd rhai o'r protestwyr eu lladd.
- Cafodd dyn o'r enw Dic Penderyn ei arestio a'i grogi'n ddiweddarach. Mae rhai pobl yn ei ystyried fel merthyr dosbarth gweithiol Cymreig.

## Dyfeisio'r chwiban stêm

**Dyddiad:** 1833

- Cafodd y chwiban stêm ei ddyfeisio yng Ngwaith Haearn Dowlais ym Merthyr Tudful gan beiriannydd o'r enw Adrian Stephens.
- Cafodd ei ddefnyddio i ddechrau i gadw gweithwyr yn ddiogel. Roedd yn eu rhybuddio nhw pan oedd y boeleri bron ffrwydro!
- Roedd y chwiban yn gwneud sŵn uchel a siarp yr oedd modd ei glywed ar draws y gwaith haearn swnllyd. Roedd yn hynod o ddefnyddiol, gan achub llawer o fywydau. Cyn bo hir roedd yn cael ei ddefnyddio mewn ffatrïoedd a rheilffyrdd ledled y byd!

## Cau'r gwaith haearn olaf

**Dyddiad:** 1920au

- Y gwaith haearn olaf yn y dref i gau oedd Dowlais yn y 1920au.
- Caeodd Gwaith Haearn Cyfarthfa, un o'r gweithfeydd mwyaf pwerus yn y byd ar un adeg, ei ffwrneisi am y tro olaf yn 1919. Roedd gweithfeydd haearn eraill ym Merthyr Tudful, fel Penydarren a Plymouth, eisoes wedi cau yn 1854 a 1860.
- Dyma oedd diwedd cyfnod cynhyrchu haearn Merthyr Tudful, a oedd wedi helpu i adeiladu rheilffyrdd, pontydd a dinasoedd ledled y byd.

## Gweithgaredd 2: Merthyr yn tyfu

**Cyflwyniad dosbarth:** Dechreuwch drwy egluro bod Merthyr yn bentref gwledig wedi ei amgylchynu â ffermydd a chaeau cyn y Chwyldro Diwydiannol. Dangoswch ddelwedd o Merthyr yn y 19eg ganrif pan roedd hi'n dref brysur yn llawn simneau, tai a phobl (gweler yr adran Delweddau). Pam maen nhw'n meddwl bod cymaint wedi newid?

**Data cyfrifiad:** Gofynnwch i'r disgyblion beth yw ystyr  y gair poblogaeth, beth ddigwyddodd i boblogaeth Merthyr a pha heriau ddaeth yn sgil twf mor gyflym? Rhannwch y tabl data cyfrifiad ar gyfer Merthyr o 1801 i 1901. Eglurwch yn fyr beth yw cyfrifiad a beth yw ei bwrpas. Gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio'r data yn y tabl a'r echelinau graff i ateb y cwestiynau.



# Merthyr yn tyfu

1. Gan ddefnyddio'r echelinau graff, llunia graff llinell i ddangos y data ar boblogaeth Merthyr Tudful sydd yn y tabl.

2. Beth oedd poblogaeth Merthyr Tudful yn 1801?

3. Ym mha flwyddyn oedd y boblogaeth fwyaf yn ystod y 19eg ganrif?

4. Rhwng pa ddau ddyddiad oedd y boblogaeth wedi tyfu fwyaf?

5. Faint mwy o bobl oedd yn byw ym Merthyr yn 1851 o'i gymharu ag 1801?

6. Pam wyt ti'n meddwl bod poblogaeth Merthyr wedi tyfu mor gyflym rhwng 1801 ac 1831?

7. Pa broblemau wyt ti'n meddwl allai fod wedi cael eu hachosi gan dwf mor fawr yn y boblogaeth?

8. Beth yw poblogaeth Merthyr Tudful heddiw? Gwna ymchwil i gael yr ateb. Beth sydd wedi digwydd i nifer y bobl sy'n byw yn y dref? Pam wyt ti'n meddwl bod hyn wedi digwydd?

# Merthyr yn tyfu


**Poblogaeth Merthyr Tudful yn ôl blwyddyn cyfrifiad (1801-1901)**

| Blwyddyn | Poblogaeth |
|---|---|
| 1801 | 7,705 |
| 1811 | 10,977 |
| 1821 | 13,309 |
| 1831 | 17,404 |
| 1841 | 34,977 |
| 1851 | 46,378 |
| 1861 | 49,794 |
| 1871 | 51,949 |
| 1881 | 48,861 |
| 1891 | 58,080 |
| 1901 | 62,509 |





## Twf poblogaeth Merthyr Tudful 1801-1901



# Dechrau newydd ym Merthyr Tudful

**Nod addysgol**
Defnyddio gwybodaeth i greu canllaw er gwybodaeth.

**Crynodeb**
Bydd y disgyblion yn archwilio'r profiad o fudo i Ferthyr Tudful yn y 19eg ganrif ac yn defnyddio ffeithiau i greu canllaw 'Croeso i Ferthyr' o safbwynt mudwr.

**Meysydd Dysgu**
Y Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Trefn**
Gwaith unigol

**Offer**
Copïau o stori Cian, copïau o'r daflen gynllunio, dyfeisiau digidol, pensiliau, peniau / pensiliau lliw, cronfa geiriau o dermau defnyddiol a syniadau ar gyfer dechrau brawddegau.

**Cyfryngau cymdeithasol**
Defnyddiwch #pecynbitesizemerthyr i roi llwyfan i waith eich disgyblion ac i ysbrydoli eraill.

**Cyd-destun**
Esboniwch i'r dosbarth y byddan nhw, yn y wers hon, yn dysgu sut a pham roedd pobl yn symud i Ferthyr, a sut fywyd oedd ganddyn nhw ar ôl cyrraedd yno.



## Stori Martha – bywyd newydd ym Merthyr Tudful

Wyt ti'n gwybod nad ydw i wedi byw ym Merthyr Tudful ar hyd fy mywyd? Fel cymaint o bobl eraill sy'n byw yn y dref, symudodd fy nheulu yma o rywle arall. Felly, dw i'n gwybod tipyn bach am sut deimlad yw cyrraedd lle cwbl newydd, sy'n llawn strydoedd prysur, sŵn a chyffro!

Ces i fy ngeni yn Sir Gaerfyrddin. Clywodd Dad fod arian i'w wneud ym Merthyr achos bod angen mwy o weithwyr yn y gweithfeydd haearn. Dywedodd e byddai digon o gyfleoedd yma a chyflog gwell nac am weithio ar fferm. Felly, teithiodd ein teulu yr holl ffordd yma i ddechrau bywyd newydd, a dyma fi.

Doeddwn i erioed wedi bod mewn lle mor brysur â Merthyr o'r blaen. Doeddwn i erioed wedi gweld cymaint o bobl na chlywed cymaint o wahanol acenion.

Mae Merthyr Tudful mor wahanol i dawelwch Sir Gaerfyrddin. Dydw i ddim yn credu bod unrhyw le mwy swnllyd yn y byd i gyd! Dydy sŵn byddarol y ffwrneisi a sŵn pobl yn bwrw metel gyda morthwyl byth yn stopio.

Fe wnaethon ni deithio'n bell i gyrraedd Merthyr, ond mae rhai pobl, fel ein cymydog, Cian, wedi teithio hyd yn oed ymhellach. Mae e wedi dod yr holl ffordd o Iwerddon. Dw i'n mwynhau gwrando arno fe'n disgrifio sut oedd hi nôl adref a'r antur gafodd ar y daith drosodd.

Lle rydyn ni'n byw, mae pawb wedi dod yma o rywle arall fel Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro neu Iwerddon. Mae'r bobl sydd wedi symud i Ferthyr fel arfer yn byw wrth ymyl ei gilydd yn yr un ardal.

Dydy bywyd ym Merthyr ddim yn hawdd. Mae'n swnllyd, yn fyglyd ac mae pawb yn byw ar ben ei gilydd, ond mae'n llawn cyfleoedd newydd hefyd. Tra bydd y gweithfeydd haearn yn dal i dyfu, bydd pobl newydd yn dal i gyrraedd o bob man.



## Gweithgaredd 1: Mudo

### Cyflwyno'r cysyniad o fudo

Yn y gweithgaredd hwn, defnyddiwch gynnwys ar-lein y **Dyniaethau ar BBC Bitesize** i ddysgu am fudo a'r rhesymau pam mae pobl yn mudo. Ar ôl esbonio'r cysyniad, ewch ymlaen i ddisgrifio sut wnaeth mudo gyfrannu at dwf Merthyr Tudful yn ystod y Chwyldro Diwydiannol wrth i bobl symud yno i ddod o hyd i waith.

### Mudo i Ferthyr

Esboniwch fod Merthyr Tudful, yn yr 1820au, wedi tyfu i fod yn un o'r trefi mwyaf yng Nghymru wrth i'r gweithfeydd haearn gynyddu mewn maint ac wrth i fwy a mwy o bobl gyrraedd i ddod o hyd i waith. Roedd y rhan fwyaf yn dod o rannau eraill o Gymru, ond daeth rhai o Iwerddon.

## Gweithgaredd 2: Stori Cian

### Trafodaeth

Pam wnaeth Cian adael Iwerddon? Beth oedd ei argraffiadau cyntaf o Ferthyr Tudful? Beth oedd yr heriau a beth fyddai'n ei ddweud wrth bobl eraill oedd newydd gyrraedd? Ysgrifennwch unrhyw bwyntiau allweddol ar y bwrdd, er enghraifft mwg, ffwrneisi, sŵn, swyddi, hiraeth, strydoedd gorlawn.



## Stori Cian: Y daith i Ferthyr Tudful

Cian ydw i, a dw i'n 17 oed. Nes i ddod i Ferthyr Tudful o bentref bach yn Swydd Mayo, Iwerddon, gyda fy mrawd hŷn Liam. Mae e'n 19 oed. Fe wnaethon ni adael oherwydd bod pethau'n anodd gartref. Dydy'r cnydau ddim yn tyfu, a does dim digon o fwyd. Felly, dyma ni'n pacio'r ychydig o bethau oedd gyda ni ac yn cychwyn am Gymru, gan obeithio dod o hyd i waith a bywyd newydd.

Roedden ni'n teithio am ddyddiau. Yn gyntaf, roedd milltiroedd o gerdded cyn cyrraedd yr arfordir. Wedyn fe wnaethon ni groesi'r môr i Gymru mewn cwch. Dim ni yw'r cyntaf i wneud y daith hon. Mae'r si wedi lledaenu'n gyflym bod gwaith ar gael mewn trefi diwydiannol fel Merthyr Tudful.

Pan ddaeth Merthyr Tudful i'r golwg am y tro cyntaf, doeddwn i ddim yn gallu credu fy llygaid. Mae'r ffwrneisi'n rhuo fel dreigiau, ac mae gwreichion yn hedfan drwy'r awyr yn y nos. Mae'n edrych fel bod yr awyr ar dân. Mae simneiau enfawr yn codi i'r awyr, yn chwythu mwg trwchus sy'n gwneud i'r aer arogli fel glo a thân.

Nid mwg ydy'r unig arogl yn yr aer, mae arogl sbwriel, cŵn, a gwaeth weithiau. Mae cŵn ym mhob man heb dennyn, heb goleri, a heb gartrefi. Gwaeth fyth yw'r llygod mawr sy'n rhedeg drwy'r llwybrau tu ôl i'r tai.

Mae'n rhaid bod yn ofalus gyda rhai o'r bobl hefyd. Un tric newydd dw i wedi'i ddysgu ers dod yma yw cuddio fy arian yn fy esgid pan fydda i'n cerdded drwy rai rhannau o'r dref.

Mae'r tai'n agos at ei gilydd, ac mae llawer yn cwympo'n ddarnau. Mae rhai teuluoedd yn byw gyda deg yn cysgu mewn un ystafell. Doedd hi ddim yn hawdd dod o hyd i le i gysgu. Ar y noson gyntaf, fe wnaethon ni gysgu mewn stabl. Yna fe wnaethon ni ddod o hyd i ystafell i'w rhannu gyda theulu arall. Mae'n fach ac yn swnllyd, ond mae'n gynnes.

Roedd hi'n hawdd dod o hyd i waith. Mae angen bechgyn cryf ar y meistri haearn, ac mae rhywbeth i'w wneud bob amser. Cafodd Liam waith fel llwythwr marwor, gan lwytho marwor poeth o'r ffwrneisi i mewn i ddramiau er mwyn gallu eu cludo ffwrdd a'u taflu. Mae'n waith ofnadwy o galed, ond mae'n talu'n ddigon da.

Roeddwn i'n lwcus i gael swydd fel bachgen ffwrnais, yn rhedeg i nôl offer a dŵr i'r dynion yn y ffwrneisi chwyth.

Dydy Merthyr Tudful ddim yn teimlo fel cartref eto, ond dyma lle mae ein bywyd newydd yn dechrau.



## Gweithgaredd 3: Creu canllaw

Esboniwch i'r disgyblion y byddan nhw'n creu canllaw gyda'r teitl 'Symud i Ferthyr Tudful: beth sydd angen ei wybod (Fersiwn yr 1820au)'.

Gall y disgyblion ddefnyddio'r **daflen gynllunio**, y **gronfa geiriau** a'r rhestr **dechrau brawddeg** i'w helpu i greu'r canllaw.



## Taflen gynllunio

**Teitl**

**Croeso agoriadol** – Dechreua gyda chyflwyniad cyfeillgar yn croesawu pobl newydd i'r dref.

**Dechrau brawddeg:**
"Croeso i Ferthyr Tudful! Os wyt ti newydd gyrraedd..."

**Sut le yw'r dref** – Disgrifia sut mae Merthyr yn edrych, yn arogli ac yn swnio. Meddylia am y gweithfeydd haearn, y strydoedd a'r tai.

**Dechrau brawddegau:**
"Y peth cyntaf byddi di yn sylwi arno ydy..."
"Ble bynnag rwyt ti'n mynd, byddi di'n clywed..."
"Mae'r awyr yn aml yn llawn..."

**Swyddi a gwaith** – Dyweda wrth y darllenwyr pa fathau o swyddi sydd ar gael – ac am y peryglon.

**Dechrau brawddegau:**
"Efallai byddi di'n cael gwaith fel..."
"Mae'r swyddi'n anodd, a bydd angen i ti fod yn barod ar gyfer..."
"Un o'r tasgau mwyaf peryglus yw..."

**3 awgrym da i fyw'n saff ym Merthyr** – Cyngor i helpu pobl sydd newydd gyrraedd ar sut i setlo a chadw'n ddiogel.

**Gair i gloi** – Gorffenna dy flog gyda nodyn byr o anogaeth neu rybudd.

**Dechrau brawddeg:**
"Mae bywyd yma'n anodd, ond os wyt ti'n ddewr ac yn gryf..."

## Rhestr ‘dechrau brawddeg’

- “Pan fyddi di’n cyrraedd Merthyr, fe weli di...”
- “Y peth cyntaf y byddi di’n sylwi arno ydy...”
- “Bydda yn barod am sŵn...”
- “Mae’r swyddi yma’n anodd, ond galli di weithio fel...”
- “Un peth y mae’n rhaid i ti fod yn ofalus ohono yw...”
- “Lle da i aros yw...”
- “Mae bywyd yma yn wahanol iawn i adref achos...”
- “Byddi di’n falch pan fyddi di’n...”

## Banc geiriau

| Lleoedd ac adeiladau | Golygfeydd, synau ac arogleuon | Teimladau |
| --- | --- | --- |
| Gweithfeydd haearn | Mwg | Gobeithiol |
| Ffwrnais chwyth | Gwreichion | Hiraethus |
| Pentyrrau slag | Torfeydd | Blinedig |
| Tŷ llety | Huddygl | Balch |
| Strydoedd | Sŵn | Cyffrous |
| Marchnad | Gweiddi | Nerfus |
| | Ceffyl a chart/Ceffyl a throl | |
| | Arogl glo a thân | |


Bywyd
gwaith

# Haearn a diwydiant

**Nod addysgol**
Datblygu dealltwriaeth o fywydau gwaith dynion, merched a phlant yn y 19eg ganrif.

**Crynodeb**
Edrych ar rolau dynion, merched a phlant yn niwydiant y cyfnod drwy edrych ar gardiau swyddi, cymharu amodau gwaith a thrafod manteision ac anfanteision pob swydd.

**Meysydd Dysgu**
Y Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Trefn**
Gwaith grŵp gyda thasgau unigol a thasgau ar y cyd.

**Offer**
Set o gardiau swyddi wedi'u hargraffu i bob grŵp, taflen ffeil ffeithiau swyddi, papur, peniau, taflen fawr ar gyfer arddangosfa grŵp.

**Cyfryngau cymdeithasol**
Defnyddiwch #pecynbitesizemerthyr i roi llwyfan i waith eich disgyblion ac i ysbrydoli eraill.

**Cyd-destun**
Esboniwch i'r dosbarth y byddan nhw'n dysgu mwy am y math o waith roedd rhai pobl yn ei wneud 200 mlynedd yn ôl – a sut mae'r mathau o swyddi sy'n bodoli, a'r ffordd rydyn ni'n gweithio, wedi newid dros amser.

Dangoswch y lluniau o'r **gweithfeydd haearn** (gweler adran Delweddau) i'r disgyblion. Esboniwch fod **gweithfeydd haearn** yn ffatrïoedd enfawr lle mae gweithwyr yn defnyddio poptai poeth anferthol, o'r enw ffwrneisi, i helpu i dynnu haearn o greigiau (sef mwyn haearn). Dywedwch fod miloedd ar filoedd o bobl wedi symud i Ferthyr Tudful ar ddiwedd y 18fed ganrif ac yn y 19eg ganrif i weithio yn y gweithfeydd haearn a'r pyllau glo.



### Gweithgaredd 1: Beth yw'r swydd?

Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am swyddi pobl heddiw. Sawl swydd maen nhw'n gallu eu henwi mewn un funud?

Esboniwch y byddai'r mathau o swyddi oedd gan bobl ym Merthyr Tudful 200 o flynyddoedd yn ôl yn wahanol iawn i'r swyddi sy'n bodoli heddiw. Dangoswch y lluniau o'r gweithwyr haearn (gweler adran Delweddau). Yna, darllenwch ddisgrifiad Martha o'i swyddi hi a'i theulu.



## Stori Martha: Fy nheulu a'n swyddi

Mae pobl yn dod i Ferthyr Tudful achos bod gwaith yma iddyn nhw yn y gweithfeydd haearn a'r pyllau glo. Mae pob math o swyddi yma, a does dim un yn hawdd. Mae rhai yn beryglus, rhai yn frwnt, a dydy'r rhan fwyaf ddim yn talu'n dda iawn.

Mae faint o arian rydych chi'n ei ennill yn dibynnu ar y meistri haearn, sef y dynion sy'n berchen ar y gweithfeydd haearn ac sy'n gyfrifol am filoedd o bobl. Mae'n gallu newid o un wythnos i'r llall. Pan fydd pris haearn yn gostwng, gallwch chi ennill llai o arian hefyd. Os ydych chi'n rhy araf, rydych chi'n ennill llai o arian. Os ydych chi'n sâl, dydych chi ddim yn cael eich talu o gwbl. Does dim gwyliau a does neb yn eich talu os byddwch chi'n cael anaf.

Mae Dad yn gweithio yng Ngwaith Haearn Cyfarthfa ym Merthyr. Mae'n gweithio o leiaf 12 awr y dydd yng nghanol y gwres a'r mwg. Mae fy mrawd mawr Evan, sy'n 12 oed, yn gweithio gyda fe. Mae'n gryf achos mae'n codi, yn cario ac yn rhawio drwy'r dydd.


Weithiau does dim gwaith i Dad, felly mae'n rhaid i weddill fy nheulu weithio hefyd. Mae Mam yn golchi dillad i deuluoedd eraill, yn sgrwbio ac yn berwi nes bod ei dwylo'n goch.

A fi? Dw i'n ferch tomen. Dw i'n cludo'r gwastraff o'r ffwrneisi, sef poptai enfawr a phoeth iawn lle mae'r haearn yn cael ei wneud, a'i roi ar bentyrrau mawr. Tomenni yw enw'r pentyrrau yma.  Dw i'n gwisgo bonet gwellt fflat pan dw i'n gweithio er mwyn gallu cario'r gwastraff ar fy mhen.

Dw i'n gwneud hyn ym mhob tywydd. Dw i'n gwisgo ffrog o ddeunydd cynfas tenau. Dydy'r ffrog ddim yn mynd yn drwm pan fydd hi'n bwrw, ond dyw hi ddim yn fy nghadw'n gynnes. Mae'r gaeaf yn oer iawn!

Mae'r gweithfeydd haearn a'r pyllau glo yn lleoedd peryglus iawn i weithio. Mae pobl yn cael anafiadau drwy'r amser. Mae rhai sy'n gweithio yn y ffwrneisi'n mynd yn ddall ar ôl syllu ar y tân drwy'r dydd. Pan fyddwch chi'n cael anaf, dyna ni. Does dim help na meddyg, nac arian chwaith.





### Gweithgaredd 2: Gêm cardiau swyddi

**Mewn grwpiau:** dylai pob disgybl yn y grŵp gael cerdyn swydd gwahanol. Mae pob cerdyn yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- teitl y swydd
- pwy oedd yn gwneud y swydd fel arfer (dyn, merch neu blentyn)
- ble roedden nhw'n gweithio
- beth roedden nhw'n ei wneud
- y dillad roedden nhw'n ei wisgo
- lefel y sgil
- y peryglon

Mae pob swydd yn cael sgôr allan o 10 ar gyfer pob categori (1 yw'r isaf, 10 yw'r uchaf).

Gofynnwch i'r disgyblion beidio â dangos eu cerdyn i unrhyw un arall. Mae pob disgybl yn cymryd tro i ddewis categori ar y cerdyn (er enghraifft, y peryglon) ac yn gofyn i bawb yn y grŵp rannu eu sgôr ar gyfer y categori hwnnw. Y disgybl sydd â'r sgôr uchaf ar gyfer y categori hwnnw sy'n ennill y rownd. Y disgybl cyntaf i gyrraedd tri phwynt sy'n ennill y gêm.

Ond ai enillydd y gêm cardiau swyddi sydd â'r swydd orau go iawn? Pan fydd y gêm drosodd, gofynnwch i'r grwpiau edrych ar bob swydd ar y cardiau a thrafod pa un yw'r gorau yn eu barn nhw. Pan fyddan nhw wedi dewis, gofynnwch iddyn nhw lenwi'r ffeil ffeithiau swyddi.



**Teitl y swydd:**

**Beth yw'r gwaith?**

**Manteision** (beth allai fod yn dda am y swydd)

**Anfanteision** (beth allai fod yn anodd am y swydd)

**Fyddet ti eisiau'r swydd hon?**
(Pam/Pam ddim?)

**Braslun o weithiwr**

## Pydlwr (dyn)

| | |
|---|---|
| **Ble rwyt ti'n gweithio:** Mewn ffatri boeth enfawr o'r enw gwaith haearn, lle mae haearn yn cael ei wneud. | **10** |
| **Beth rwyt ti'n ei wneud:** Cymysgu haearn wedi toddi mewn ffwrn fawr fflamllyd (sef ffwrnais) gan ddefnyddio ffon fetel hir. Mae hyn yn helpu i lanhau'r haearn a'i wneud yn gryf. | **10** |
| **Dillad:** Ffedog ledr drwchus, esgidiau trwm, cadach o amgylch fy wyneb i fy nghadw'n saff rhag y mwg a'r gwres. | **7** |
| **Peryglon:** Mae'n boeth iawn. Gallwch chi gael eich llosgi, teimlo'n sâl oherwydd y gwres, neu hyd yn oed mynd yn ddall drwy weithio'n agos i dân a mwg drwy'r dydd. | **10** |
| **Lefel sgiliau**: Mae'n rhaid bod yn gryf iawn a gwybod sut yn union i gymysgu'r haearn poeth ar y cyflymder cywir, ac am ba mor hir. | **9** |
| **Ffaith ddiddorol:** Pydlwyr yw rhai o'r dynion cryfaf gewch chi. Mae'r gwaith fel rhwyfo cwch mewn sawna drwy'r dydd! | |

## Glöwr (dyn)

| | |
|---|---|
| **Ble rwyt ti'n gweithio:** Yn ddwfn o dan y ddaear mewn pwll glo tywyll. | **9** |
| **Beth rwyt ti'n ei wneud:** Cloddio glo gyda chaib, ei lwytho i mewn i gart, yna gwthio'r certi ar hyd twneli. | **8** |
| **Dillad:** Hen drowsus a chrys, a channwyll ar fy nghap. | **5** |
| **Peryglon:** Ffrwydradau, y to'n cwympo, anadlu llwch glo, cael fy ngwasgu gan gart. | **9** |
| **Lefel sgiliau:** Mae angen cryfder a phrofiad i gloddio'n ddiogel a dod o hyd i'r glo gorau. | **7** |
| **Ffaith ddiddorol:** Yn aml, rhaid i lowyr gropian drwy dwneli bach i gyrraedd man lle maen nhw'n gallu cloddio'r glo. | |

## Nafi (dyn)

| | |
|---|---|
| **Ble rwyt ti'n gweithio:** Yn yr awyr agored, ble bynnag mae camlesi, rheilffyrdd a ffyrdd yn cael eu hadeiladu. | **9** |
| **Beth rwyt ti'n ei wneud:** Cloddio gan ddefnyddio caib a rhaw, chwalu cerrig a gosod traciau. | **7** |
| **Dillad:** Hen drowsus, crys heb lewys, yn droednoeth weithiau. | **5** |
| **Peryglon:** Mae twneli'n gallu cwympo, cerrig yn gallu disgyn, gweithio mewn glaw, gwynt ac eira. | **8** |
| **Lefel sgiliau:** Mae angen bod yn gryf a gweithio'n galed, ond does dim angen llawer o hyfforddiant i wneud y gwaith. | **6** |
| **Ffaith ddiddorol:** Mae nafis yn byw mewn pebyll ac yn symud gyda'r gwaith. | |

## Labrwr gwaith haearn (merch)

| | |
|---|---|
| **Ble rwyt ti'n gweithio:** Yn yr awyr agored yn y gwaith haearn, ger y ffwrneisi, sef poptai mawr lle mae'r haearn yn cael ei gynhyrchu. | **8** |
| **Beth rwyt ti'n ei wneud:** Cario offer a metel, glanhau gwastraff, rhoi trefn ar lwythi trwm. | **5** |
| **Dillad:** Sgertiau hir wedi'u tycio, sgarff dros yr wyneb, esgidiau cryf. | **8** |
| **Peryglon:** Anafiadau, llosgiadau, anadlu mwg. | **8** |
| **Lefel sgiliau:** Mae angen dilyn cyfarwyddiadau a chodi pethau trwm, ond does dim sgil. | **4** |
| **Ffaith ddiddorol:** Mae rhai merched yn gweithio yn y nos tra bod eu plant yn cysgu wrth eu hochr! | |

## Golchwraig (merch)

| | |
|---|---|
| **Ble rwyt ti'n gweithio:** Gartref neu yn nhai pobl gyfoethog. | **6** |
| **Beth rwyt ti'n ei wneud:** Sgrwbio a berwi dillad â llaw i deuluoedd eraill. | **3** |
| **Dillad:** Ffedog, llewys wedi'u torchi, sgarff i ddal fy ngwallt. | **6** |
| **Peryglon:** Llosgiadau o ddŵr poeth, dwylo poenus o achos y sebon, poen cefn. | **2** |
| **Lefel sgiliau:** Mae angen gwybod sut i lanhau dillad yn dda a gweithio'n galed. | **5** |
| **Ffaith ddiddorol:** Mae rhai golchwragedd yn cael eu talu gyda bwyd neu hen ddillad yn lle arian. | |

## Bachgen drws aer (plentyn – bechgyn 6-10 oed fel arfer)

| | |
|---|---|
| **Ble rwyt ti'n gweithio:** Yn ddwfn y tu mewn i bwll glo, yn bell o dan y ddaear. | **8** |
| **Beth rwyt ti'n ei wneud:** Eistedd yn y tywyllwch am oriau yn agor a chau drws pren mawr i adael awyr iach i mewn a gadael i'r certi fynd heibio. | **5** |
| **Dillad:** Hen ddillad carpiog, yn droednoeth yn aml, gyda channwyll. | **8** |
| **Peryglon:** Llygod mawr, mynd i gysgu, cael fy mrifo gan gerti yn y tywyllwch. | **8** |
| **Lefel sgiliau:** Dim ond agor a chau'r drws sydd angen ei wneud. | **4** |
| **Ffaith ddiddorol:** Rhaid aros yn effro achos os bydda i'n mynd i gysgu, gallwn i gwympo ar y trac a chael fy nharo gan gert llawn glo, neu geffyl hyd yn oed! | |

## Dramiwr (plentyn – 10-14 oed fel arfer)

| | |
|---|---|
| **Ble rwyt ti'n gweithio:** Dan y ddaear mewn pwll glo. | **10** |
| **Beth rwyt ti'n ei wneud:** Tynnu certi trwm, sef dramiau, sy'n llawn glo ar hyd twneli. | **3** |
| **Dillad:** Crys, trowsus, dim esgidiau yn aml. | **2** |
| **Peryglon:** Cael fy ngwasgu, anadlu aer budr a llwch glo, cwympo yn y tywyllwch. | **8** |
| **Lefel sgiliau:** Mae angen bod yn gryf ac aros ar y llwybr iawn, ond mae'r gwaith ei hun yn syml. | **3** |
| **Ffaith ddiddorol:** Mae rhai plant yn tynnu certi glo wrth gropian. | |

## Gof (dyn)

| | |
|---|---|
| **Ble rwyt ti'n gweithio:** Mewn gweithdy bach o'r enw gefail ger y pwll glo neu'r pentref. | **5** |
| **Beth rwyt ti'n ei wneud:** Gwneud offer, pedolau a pheiriannau o fetel poeth. | **5** |
| **Dillad:** Ffedog ledr, llewys trwchus. | **6** |
| **Peryglon:** Llosgi, gwreichion yn hedfan, codi pethau trwm. | **6** |
| **Lefel sgiliau:** Mae angen dipyn o sgil i siapio metel poeth, defnyddio offer yn ddiogel a gwneud eitemau defnyddiol. | **9** |
| **Ffaith ddiddorol:** Mae'r gof yn bwysig iawn - mae angen gof ar bawb i wneud a thrwsio pethau. | |

## Merch tomen (plentyn - merched 8-14 oed fel arfer)

| | |
|---|---|
| **Ble rwyt ti'n gweithio:** Yn yr awyr agored yn y gwaith haearn. | **7** |
| **Beth rwyt ti'n ei wneud:** Cludo gwastraff o'r ffwrneisi i bentwr gwastraff o'r enw tomen. | **4** |
| **Dillad:** Ffedog drwchus, sgarff, het fflat. | **5** |
| **Peryglon:** Brifo fy nwylo, gweithio ym mhob tywydd, hyd yn oed mewn glaw ac eira, anadlu llwch. | **4** |
| **Lefel sgiliau:** Mae angen cario llwythi trwm, ond does dim angen hyfforddiant i wneud y gwaith. | **3** |
| **Ffaith ddiddorol:** Mae merched tomen yn gwisgo hetiau gwellt fflat er mwyn gallu cario basgedi gwastraff ar eu pen. | |

**Morwyn tŷ (merch)**

| | |
|---|---|
| **Ble rwyt ti'n gweithio:** Yn nhŷ rhywun. | **6** |
| **Beth rwyt ti'n ei wneud:** Glanhau ystafelloedd, cario dŵr, golchi llestri a helpu gyda'r coginio. | **7** |
| **Dillad:** Gwisg syml, ffedog, cap. | **3** |
| **Peryglon:** Blinder, anafiadau o godi pethau neu o gynnau tân, dim gwyliau. | **2** |
| **Lefel sgiliau:** Rhaid cofio llawer o wahanol dasgau a dilyn rheolau llym, ond mae'n bosib dysgu wrth fynd. | **5** |
| **Ffaith ddiddorol:** Mae rhai merched yn dechrau gwaith morwyn pan ond yn 12 oed. | |

## Gweithgaredd 3: Trafod swyddi a gwaith yn y gorffennol

**Arweiniwch drafodaeth:** gofynnwch i'r disgyblion drafod:

- pa swyddi o'r cyfnod oedd fwyaf peryglus?
- pa rai oedd yr anoddaf?
- fyddai plant yn cael gwneud y swyddi hyn heddiw?
- pa fath o swyddi oedd gan y merched?



# Cartrefi ac iechyd



# Bythynnod a chestyll

**Nod addysgol**
Deall amodau byw teuluoedd a oedd yn byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful yn ystod y Chwyldro Diwydiannol.

**Crynodeb**
Bydd disgyblion yn dysgu am yr amodau byw, a oedd yn aml yn gyfyng ac yn heriol, mewn trefi diwydiannol fel Merthyr yn y 19eg ganrif ac yn eu cymharu gyda Chastell Cyfarthfa. Byddan nhw'n creu model 3D o fwthyn sy'n nodweddiadol o'r cyfnod hwn.

**Meysydd Dysgu**
Y Dyniaethau; Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu; Y Celfyddydau Mynegiannol

**Trefn**
Gwaith unigol neu mewn parau, yn dibynnu ar y grŵp oedran.

**Offer**
Amrywiaeth o ddeunyddiau ar gyfer creu model 3D neu feddalwedd modelu cyfrifiadurol, delweddau o fythynnod Rhyd-y-car a Chastell Cyfarthfa (gweler adran Delweddau).

**Cyfryngau cymdeithasol**
Defnyddiwch #pecynbitesizemerthyr i roi llwyfan i waith eich disgyblion ac i ysbrydoli eraill.

**Cyd-destun**
Dywedwch wrth y disgyblion y byddan nhw'n edrych ar sut roedd gweithwyr ym Merthyr Tudful yn byw 200 o flynyddoedd yn ôl. Byddan nhw'n gweld sut dai oedd ganddyn nhw a pha heriau roedden nhw'n eu hwynebu.



## Stori Martha: Fy nghartref

Rydyn ni'n byw mewn bwthyn gweithiwr ym Merthyr, mewn lle o'r enw Trewiliam. Mae wedi'i wasgu'n dynn rhwng rhesi o dai tebyg, ddim yn bell o Waith Haearn Cyfarthfa. Dw i'n byw fan hyn gyda Mam, Dad, fy mrawd Evan a dwy chwaer fach, Ann a Gwen. Mae chwech ohonon ni i gyd, mewn un tŷ bach iawn.

Pan symudon ni mewn i ddechrau, doeddwn i ddim yn meddwl ein bod ni gyd am ffitio. Dim ond un ystafell sydd lawr llawr. Dyna ble rydyn ni'n coginio, bwyta, golchi ac yn cadw'n gynnes o flaen y tân. Dyma hefyd ble mae Mam yn gwneud y gwaith golchi i gyd a ble mae Ann a Gwen yn chwarae weithiau pan mae'r tywydd yn ddrwg.

Mae dau wely lan lofft. Mae Mam a Dad yn cysgu mewn un ac mae'r pedwar ohonon ni blant yn gwasgu mewn i'r llall. Dw i'n cysgu wrth ochr Gwen, sy'n troi a throsi yn ei chwsg!

Pan fydd angen dŵr arnon ni, mae'n rhaid i Mam ei nôl o'r pwmp ar waelod y stryd. Mae'r tŷ bach allan yng nghefn yr iard. Mae'n oer iawn yno yn ystod y gaeaf. Rydyn ni gyd yn ymolchi yn yr ystafell lawr llawr. Ar ddydd Sadwrn, mae Mam yn cynhesu dŵr ar y tân ac rydyn ni gyd yn cymryd ein tro i ymolchi, o'r hynaf i'r ieuengaf, mewn twb metel mawr. Dw i yn y canol, felly dydy'r dŵr ddim yn rhy frwnt nac oer erbyn fy nhro i.

Does dim llawer o ddodrefn gyda ni, dim ond bwrdd pren, ychydig o gadeiriau ac un cwpwrdd bwyd. Mae Mam yn cadw cannwyll ar y silff ben tân i gael golau pan fydd angen, a Beibl hefyd.

Ond dydy popeth ddim yn ddrwg. Weithiau, pan fydd y tân wedi cynnau a'n bod ni gyd gartref, mae'n teimlo'n glyd ac yn ddiogel. Rydyn ni'n dweud straeon, neu mae Dad yn canu caneuon roedd e wedi'u dysgu pan oedd yn blentyn.

Ddim yn bell o'n bwthyn, yn uchel ar y bryn, mae Castell Cyfarthfa. Cafodd ei adeiladu gan Mr Crawshay, y meistr haearn sy'n berchen ar Waith Haearn Cyfarthfa lle mae Dad, Evan a fi'n gweithio. Mae'r tŷ yn enfawr, gyda thyrau ac ystafelloedd crand, ac mae parc enfawr o'i gwmpas. Mae'r teulu Crawshay yn byw yno mewn moethusrwydd, gyda gweision a dillad crand. Weithiau, dw i'n meddwl sut fyddai hi i fyw yn y castell, a tybed a ydy'r plant yno byth yn meddwl am ferched fel fi.





### Gweithgaredd 1: Bwthyn i weithwyr

Dangoswch y ffotograff o un o **fythynnod gweithiwr Rhyd-y-car** (gweler adran Delweddau) a delweddau o **rith-daith o'r bythynnod**.

Gofynnwch y cwestiynau canlynol am y bwthyn.

- Sawl ystafell sydd yna yn y bwthyn?
- Oes ystafell ymolchi?
- Oes cegin?
- Pa fath o ddodrefn sydd yno?
- Oes teledu?
- O ba ddeunyddiau mae'r dodrefn wedi eu gwneud?

Gallech chi hefyd ddangos delweddau o **fythynnod gweithwyr yn Amgueddfa Lechi Cymru**.

### Gweithgaredd 2: Cynllunio model 3D o fwthyn 1820

- Gan ddefnyddio'r atebion i gwestiynau Gweithgaredd 1, gofynnwch i'r disgyblion lunio rhestr o'r hyn fydd angen ei gynnwys yn eu model o'r bwthyn.
- Gofynnwch i'r disgyblion lunio cynllun llawr sylfaenol ar gyfer eu bwthyn. Yna gofynnwch iddyn nhw greu braslun o'u model o'r blaen ac o'r ochr.
- Pan fydd eu cynllun llawr o'r bwthyn wedi'i gwblhau, dangoswch lun a chynllun llawr Castell Cyfarthfa i'r disgyblion (gweler adran Delweddau). Dyma blasty'r teulu Crawshay, a nhw oedd yn berchen ar Waith Haearn Cyfarthfa. Sut mae cynllun llawr y plasty yn cymharu â chynllun llawr y bwthyn?

### Gweithgaredd 3: Adeiladu'r bwthyn

- Gofynnwch i'r disgyblion adeiladu eu bwthyn ar sail eu cynllun llawr (model 3D neu fodel 3D digidol).
- Rhowch gyfle i'r disgyblion baentio'r tu mewn a'r tu allan, ac adeiladu modelau o ddodrefn. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried ac ymchwilio i'r deunyddiau gafodd eu defnyddio i adeiladu'r bwthyn, a'u hannog i geisio cynrychioli / ail-greu edrychiad a theimlad y deunyddiau hynny.

# Marwolaeth a dŵr budr

**Nod addysgol**
Dewis a defnyddio gwybodaeth o wahanol ffynonellau.

**Crynodeb**
Bydd disgyblion yn defnyddio adroddiad iechyd a data i ymchwilio i amodau byw ym Merthyr Tudful yn 1854. Bydd disgyblion hefyd yn dysgu sut mae clefydau'n lledaenu ac yn edrych ar ffyrdd o wella iechyd mewn trefi.

**Meysydd Dysgu a Phrofiad**
Y Dyniaethau; Iechyd a Lles; Mathemateg a Rhifedd

**Trefn**
Trafodaeth grŵp, a gwaith unigol.

**Offer**
Copïau o ddyfyniad o'r adroddiad iechyd, poster colera (gweler adran Delweddau), taflen waith, offer ysgrifennu.

**Cyfryngau cymdeithasol**
Defnyddiwch #pecynbitesizemerthyr i roi llwyfan i waith eich disgyblion ac i ysbrydoli eraill.

**Cyd-destun**
Dywedwch wrth y disgyblion y byddan nhw'n dysgu pam fod clefydau fel colera wedi ymledu mewn trefi fel Merthyr Tudful yn y 19eg ganrif.



## Stori Martha: Mae llawer o bobl sâl yma


Mae Merthyr Tudful yn llawn pobl. Mae'r dref wedi tyfu'n gyflym iawn achos bod cymaint o bobl wedi dod yma i chwilio am swyddi yn y gweithfeydd haearn. Mae gweithwyr ym Merthyr yn byw mewn tai bach, gorlawn sy'n oer ac yn llaith. Dw i ddim yn gwybod sut mae cymaint o bobl yn ffitio i mewn i rai ohonyn nhw!

Rydyn ni'n deulu o chwech, ac rydyn ni gyd yn byw gyda'n gilydd mewn bwthyn bach wrth ymyl Gwaith Haearn Cyfarthfa. Dim ond un ystafell sydd lawr llawr ac rydyn ni gyd yn cysgu yn yr un ystafell lan lofft.

Mae llawer o bobl ym Merthyr yn sâl, ac achos bod pobl yn byw mor agos at ei gilydd, pan mae un person mewn tŷ yn mynd yn sâl, mae pawb arall yn mynd yn sâl hefyd.

Mae'r ddarfodigaeth yn salwch cyffredin iawn yma, ond does neb yn gwybod beth sy'n ei achosi. Mae Morgan, un o'r bechgyn sy'n byw drws nesaf ac sydd yr un oed â fi, yn sâl gyda hyn eto. Mae'n edrych yn denau ac mae bob amser wedi blino. Mae'n gorfod aros yn ei wely a dw i'n ei glywed yn peswch drwy'r amser. Mae ei fam yn gofalu amdano. Mae hi'n dweud ei bod hi'n gobeithio y bydd e'n gwella. Dw i ddim mor siŵr o hynny.

Pan mae angen dŵr arnon ni, mae'n rhaid i Mam ei nôl o'r pwmp ar gornel y stryd. Weithiau mae'r dŵr yn arogli'n wael iawn a dw i ddim yn meddwl ei fod e'n lân. Mae'r strydoedd yma'n frwnt hefyd. Bob bore, pan dw i'n cerdded i'r gwaith haearn gyda fy mrawd Evan, mae'r strydoedd yn fwdlyd ac maen nhw'n drewi o wastraff o'r toiledau tu allan. Dw i ddim yn meddwl bod y dŵr rydyn ni'n ei yfed na'r strydoedd brwnt yn dda iawn i ni.



### Gweithgaredd 1: Poster colera

Esboniwch i'r disgyblion y byddan nhw'n edrych ar wybodaeth o wahanol flynyddoedd yn y 19eg ganrif i'w helpu i ddysgu:

- pam oedd cymaint o bobl wedi mynd yn sâl
- beth oedd yr amodau yn y dref ar y pryd
- beth fyddai wedi gallu helpu i atal clefydau rhag lledaenu

Edrychwch ar y poster colera ar gyfer Merthyr Tudful o 1849. Gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio'r data ar y poster i greu dau bennawd am yr achosion o golera ym Merthyr Tudful.



## Gweithgaredd 2: Adroddiad y Swyddog Iechyd yn 1854

### Glanweithdra ym Merthyr

Esboniwch fod llawer o deuluoedd ym Merthyr Tudful yn byw mewn tai oedd yn llawn pobl. Weithiau roedd 10 o bobl yn byw mewn un ystafell. Doedd dim draeniau na thoiledau iawn tu mewn, ac roedd pobl yn casglu dŵr yfed o bympiau yn y stryd. Ond roedd rhai o'r pympiau hyn yn rhy agos at garthbyllau drewllyd (tyllau yn y ddaear a oedd yn cael eu defnyddio i gasglu gwastraff tŷ bach) neu dai bach a oedd yn gollwng, ac yn gwneud y dŵr yfed yn frwnt. Roedd y dŵr budr yn llifo lawr drwy'r dref, gan ledaenu clefydau fel colera, teiffoid a dysentri.

### Esbonio'r termau allweddol

**Darfodigaeth** – Salwch sy'n cael ei alw'n twbercwlosis heddiw. Mae'n effeithio ar yr ysgyfaint.

**Colera** – Clefyd sy'n cael ei achosi gan yfed dŵr budr. Mae'n achosi dolur rhydd difrifol a diffyg hylif.

**Teiffoid** – Salwch sy'n cael ei ledaenu drwy fwyd neu ddŵr gyda germau ynddo. Mae'n achosi twymyn a phoen yn y stumog.

**Dysentri** – Haint ddifrifol sy'n achosi dolur rhydd. Mae'n lledaenu drwy hylendid gwael a dŵr budr.

**Carthbwll** – Twll dwfn sy'n cael ei ddefnyddio i gasglu gwastraff tŷ bach. Bydden nhw'n gollwng yn aml ac yn llygru dŵr gerllaw.

**Geudy** – Tŷ bach tu allan, sied fach fel arfer. Roedd yn cael ei rannu gan nifer o deuluoedd ac roedd yn sylfaenol iawn yn aml.

### Cyflwyno adroddiad y swyddog iechyd

Gyda'ch gilydd, darllenwch y darn byr o Adroddiad Swyddog Iechyd o 1854 a'r tabl data. Mae dwy fersiwn o'r dyfyniad o'r adroddiad wedi'u cynnwys, un gyda chyfieithiad Cymraeg o'r geiriad gwreiddiol a fersiwn syml. Gofynnwch i'r disgyblion weithio'n unigol i ateb y cwestiynau sy'n cyd-fynd â'r adroddiad.



Mae'r dyfyniad canlynol sydd wedi'i addasu yn dod o Adroddiad ar Gyflwr Glanweithiol Merthyr Tudful a ysgrifennwyd gan **Dr William Kay yn 1854**.

*"Mae tref Merthyr Tudful yn cynnwys bythynnod bach yn bennaf, heb gyflenwad dŵr, system ddraenio na threfniadau glanhau priodol. Caiff dŵr budr a sbwriel eu taflu ar y strydoedd, ac mae toiledau yn brin.*

*Priodolir afiachusrwydd Merthyr Tudful i amodau lleol ac amodau wedi'u creu gan bobl: adeiladu tai diffygiol, cyflenwad dŵr annigonol, diffyg system ddraenio, a chroniadau o fudreddi o ganlyniad."*

Fersiwn syml

*"Mae'r rhan fwyaf o bobl ym Merthyr Tudful yn byw mewn tai bach, gorlawn. Does dim pibellau addas i ddod â dŵr glân i mewn, na draeniau da i gludo dŵr budr i ffwrdd. Mae pobl yn taflu eu gwastraff a'u dŵr budr i'r strydoedd, a does dim llawer o doiledau.*

*Mae'r bobl sy'n byw yn y dref yn sâl oherwydd yr amodau yno. Mae'r tai wedi cael eu hadeiladu'n wael ac nid oes dŵr glân na system ddraenio. Mae sbwriel a gwastraff yn casglu ym mhobman."*

## Glanweithdra ym Merthyr Tudful

### Marwolaethau o achos clefydau sy'n lledaenu mewn dŵr yn ystod cyfnod o ddau fis

| Clefyd | Marwolaethau mewn ardal fwy tlawd | Marwolaethau mewn ardal fwy cyfoethog |
|---|---|---|
| Colera | 455 | 38 |
| Teiffoid | 212 | 26 |
| Dysenteri | 147 | 14 |
| **Cyfanswm** | **814** | **78** |

1. Noda dair broblem fawr oedd yn cyfrannu at ba mor lân neu fudr oedd Merthyr yn 1854.

2. Pam oedd hi'n beryglus i gael dŵr o'r pympiau yn y stryd?

3. Pa grŵp o bobl oedd yn sâl fwyaf aml ym Merthyr Tudful, a pham?

4. Pa salwch achosodd y nifer fwyaf o farwolaethau yn yr ardal fwy tlawd?

5. Faint yn fwy o bobl fu farw o golera yn yr ardal dlawd nag yn yr ardal fwy cyfoethog?

6. Ar beth wyt ti'n sylwi wrth gymharu nifer y marwolaethau yn y ddwy ardal?

7. Pam nad oedd pobl gyfoethog yn mynd mor sâl â phobl dlawd yn dy farn di?

8. Beth gallwn ni ei ddysgu heddiw o'r hyn a ddigwyddodd ym Merthyr amser maith yn ôl?

# Geirfa



| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **bachgen ffwrnais** | Bachgen oedd yn helpu'r dynion oedd yn gweithio yn y ffwrneisi chwyth wrth fynd i nôl dŵr ac offer iddyn nhw. |
| **boeler** | Y rhan o injan stêm sydd yn poethi'r dŵr i gynhyrchu ager. |
| **calchfaen** | Math o graig oedd yn cael ei defnyddio wrth wneud haearn i sicrhau bod yr haearn yn bur. |
| **Chwyldro Diwydiannol** | Cyfnod o newid anferth a ddigwyddodd ym Mhrydain yn y 18fed a'r 19eg ganrif. Yn lle gwneud pethau gyda llaw, roedd pethau yn cael eu gwneud gyda pheiriannau oedd yn cael eu gyrru gan injans stêm mewn ffatrïoedd. |
| **clefyd** | Salwch |
| **cyflenwad dŵr** | Sut mae dŵr yn cyrraedd cartrefi, fel arfer trwy bibellau. |
| **cyflog** | Yr arian sy'n cael ei dalu i bobl am wneud swydd. |
| **darfodigaeth** | Salwch sy'n cael ei alw'n twbercwlosis heddiw. Mae'n effeithio ar yr ysgyfaint. |
| **diwydiannol** | Yn llawn diwydiant, gyda ffatrïoedd yn gwneud nwyddau allan o ddeunyddiau crai. |
| **dram** | Cert/trol fach. |
| **ffedog** | Darn o ddillad sy'n cael ei wisgo dros ddillad eraill i'w cadw nhw'n lan neu ar gyfer diogelwch. |
| **ffwrnais chwyth** | Ffwrn anferth lle mae haearn yn cael ei wneud wrth chwythu aer trwy gymysgedd o fwyn haearn, calchfaen a glo. |
| **gefail (gefeiliau)** | Rhywle lle mae metel yn cael ei boethi ac yna ei fwrw er mwyn ei siapio. |

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| **glanweithdra** | Pethau sy'n cadw lleoedd yn lan. |
| **gwaith haearn** | Ffatri fawr lle mae haearn yn cael ei gynhyrchu. |
| **huddygl** | Powdr du sy'n cael ei gynhyrchu pan mae pethau fel glo neu bren yn cael eu llosgi. |
| **hylendid** | Cadw pobl a'u hamgylchedd yn lan. |
| **llwythwr marwor** | Gwaith llwythwr marwor oedd codi'r marwor poeth o'r ffwrnais gyda rhaw a'u rhoi mewn dram fel eu bod yn gallu cael eu taflu. Marwor yw'r deunydd sydd wedi cael ei adael ar ôl i greigiau cael eu poethi i gael metel allan ohonyn nhw. |
| **lludw** | Y deunydd llwyd, meddal sydd yn weddill ar ôl i bethau fel glo neu bren gael eu llosgi. |
| **meistr haearn** | Perchennog y gwaith haearn. |
| **merthyr** | Rhywun sydd yn cael eu lladd oherwydd beth maen nhw'n ei gredu. |
| **morthwylio** | Bwrw pethau gyda morthwyl. |
| **mwyn haearn** | Math o graig sy'n cynnwys llawer o haearn. |
| **pentwr slag** | Pentwr mawr o'r hyn sydd ar ôl pan mae creigiau yn cael eu poethi i gael metel allan ohonyn nhw. |
| **plasty** | Tŷ mawr, drud. |
| **system ddraenio** | Sut mae dŵr a gwastraff yn llifo o rywle ac i mewn i bibellau neu'r ddaear. |
| **twymyn** | Pan fydd tymheredd y corff yn uwch nag arfer pan fydd rhywun yn sâl. |
| **ysgraff** | Cwch hir a chul sy'n cael ei ddefnyddio ar gamlas. |

# Delweddau






**Gwaith Haearn Dowlais 1840 – George Childs.**

Trwy ganiatâd Amgueddfa Cymru - Museum Wales

Mae rhagor o ddelweddau tebyg i'w gweld ar **wefan Amgueddfa Cymru**.



**Gwaith Haearn Penydarren – Artist anhysbys, 19eg ganrif.**

Trwy ganiatâd Amgueddfa Cymru - Museum Wales



**Bar o haearn crai a ddarganfyddwyd yng Nghamlas Abertawe.**

Trwy ganiatâd Amgueddfa Cymru - Museum Wales



**Y chwiban stêm a gafodd ei dyfeisio gan Adrian Stephens, gweithiwr haearn yn 1833.**

Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful.



**Sachliain a Lludw: Merched Tomen yn Gadael y Gwaith – Thomas Henry Thomas, 1879.**

Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful.



**David Davies, Ffwrneisi, Hirwaun – priodolir i J.W. Chapman.**

Trwy ganiatâd Amgueddfa Cymru - Museum Wales

Mae rhagor o ddelweddau i'w gweld ar **wefan Amgueddfa Cymru**.



**David Davies, Llwythwr Marwor, Hirwaun – priodolir i J.W. Chapman.**

Trwy ganiatâd Amgueddfa Cymru - Museum Wales

Mae rhagor o ddelweddau i'w gweld ar **wefan Amgueddfa Cymru**.





**Les chercheuses d'escarbilles, à Cyfarthfa, 1867 (Y chwilwyr marwor, yng Nghyfarthfa, 1867) – Jean-Baptiste Durand-Brager.**

Trwy ganiatâd Amgueddfa Cymru - Museum Wales




**Ystafell fyw Rhif 2 Rhyd-y-car, yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.**

Trwy ganiatâd Amgueddfa Cymru - Museum Wales




**Pensaerniaeth Fila: Casgliad o Olygfeydd, gyda Chynlluniau. (Llundain: J. Taylor, 1828) – Robert Lugar.**

Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful.



**Dyfrliw o Gastell Cyfarthfa – Penry Williams.**

Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful.

# CHOLERA AT MERTHYR-TYDFIL.

## RETURN OF CASES,

### Saturday, September 22, 1849.

| | ATTACKED. | DEAD. |
|---|---|---|
| **MERTHYR.** | | |
| Total from commencement (May 25th), as per last Report, corrected by Registration Returns up to 10 A. M., Yesterday . . . . . . | 1779 | 745 |
| New Cases, up to 10 A. M., To-day . . . . . . . . . | 1 | 1 |
| **PENYDARRAN.** | | |
| Total from commencement (June 5th), up to 10 A. M., Yesterday . . . . . . . . . . . . . . | 272 | 170 |
| New Cases, up to 10 A. M., To-day . . . . . . . . . | 0 | 0 |
| **DOWLAIS.** | | |
| Total from commencement (June 10th), up to 10 A. M., Yesterday . . . . . . . . . . . . . . . . | 1196 | 499 |
| New Cases, up to 10 A. M., To-day . . . . . . . . . | 0 | 1 |
| **ABERDARE.** | | |
| Total from commencement (June 24th), up to 10 A. M., Yesterday . . . . . . . . . . . . . . | 364 | 104 |
| New Cases, up to 10 A. M., To-day . . . . . . . . . | 0 | 0 |
| TOTAL . . . . . . . . | 3612 | 1520 |

**FRANK JAMES,**
*Clerk to the Guardians.*

H. W. WHITE, PRINTER, MERTHYR.

U/MT1/6.

**Ffurflen wedi ei hargraffu yn dangos y nifer o achosion o golera ym Merthyr Tudful, 22 Medi 1849.**

Wedi ei atgynhyrchu trwy garedigrwydd Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf